# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 3

COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU

*Panel cynghori'r Comisiynydd*

### 26 Panel cynghori

(1) Sefydlir panel o gynghorwyr (y "panel cynghori") at y diben o ddarparu cyngor i'r Comisiynydd ynghylch arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Dyma aelodau'r panel cynghori—

(a) Comisiynydd Plant Cymru;

(b) Comisiynydd y Gymraeg;

(c) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;

(d) yr aelod staff o fewn Llywodraeth Cymru a ddynodwyd yn Brif Swyddog Meddygol Cymru gan Weinidogion Cymru;

(e) cadeirydd Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu aelod anweithredol arall o'r corff hwnnw a ddetholir gan y cadeirydd;

(f) swyddog o'r corff sy'n cynrychioli undebau llafur yng Nghymru a elwir yn Wales TUC Cymru a enwebir gan y corff hwnnw;

(g) cadeirydd, cyfarwyddwr neu swyddog tebyg y caiff Gweinidogion Cymru ei benodi mewn corff sy'n cynrychioli personau sy'n cynnal busnes yng Nghymru;

(h) y cyfryw berson arall ag y caiff Gweinidogion Cymru ei benodi.

## 27 Aelodau penodedig

(1) Cyn penodi aelod o dan adran 26(2)(h) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd.

(2) Mae aelod penodedig yn dal y swydd am gyfnod o ddim llai na 3 blynedd a dim mwy na 5 mlynedd fel y penderfynir gan Weinidogion Cymru.

(3) Caniateir ailbenodi aelod penodedig unwaith, am gyfnod pellach o ddim llai na 3 blynedd a dim mwy na 5 mlynedd (pa un a yw'r cyfnod hwn yn gyfnod olynol wedi penodiad cyntaf yr aelod ai peidio).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru roi taliad cydnabyddiaeth i aelodau penodedig.

(5) Caiff aelod penodedig ymddiswyddo o'r panel drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o ddim llai na 3 mis i Weinidogion Cymru o fwriad yr aelod i wneud hynny.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â'r Comisiynydd ddiswyddo aelod penodedig os yw'n fodlon bod yr aelod—

(a) yn anaddas i barhau i fod yn aelod o'r panel, neu

(b) yn analluog neu'n anfodlon i weithredu fel aelod.

## 28 Talu treuliau aelodau'r panel

Caiff Gweinidogion Cymru dalu lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a chynhaliaeth) ac arian rhodd i aelodau'r panel cynghori.